CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod y Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 15 Ebrill 2024: cofnodion

Cofnodion cyfarfod y Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 15 Ebrill 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 22 Gorffennaf 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 22 Gorffennaf 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


1. Croeso

2. Diweddariad ar brosiect y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad

3. Diweddariad gan lywodraeth leol

4. Unrhyw fater arall

Atodiad A: rhestr o mynychwyr



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1. Croeso

Croesawodd Tom Smithson (TS) yr aelodau, gan nodi nad yw Huw Irranca-Davies AS yn cadeirio'r Fforwm Strategol mwyach ar ôl cael ei benodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru.

Esboniodd TS y byddai'n gweithredu fel Cadeirydd Dros Dro nes bod y Prif Weinidog yn dewis Cadeirydd annibynnol gan fod maes polisi buddsoddi rhanbarthol ar ôl gadael yr UE bellach wedi cael ei symud i is-adran Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio Llywodraeth Cymru wrth i WEFO ddechrau dirwyn i ben.

Nododd TS hefyd, yn sgil ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru, fod buddsoddi rhanbarthol bellach yn dod o dan bortffolio Jeremy Miles fel Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg.

Croesawodd TS Maria Varinia Michalun (MVM) ac Alexis Durand (AD) o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (y sefydliad) i'r cyfarfod, gan nodi bod ei brosiect ar fin dod i ben. Diolchodd i'r aelodau unwaith eto am eu cyfranogiad a'u cyfraniad i'r gwaith.

Diolchodd TS hefyd i gydweithwyr llywodraeth leol am ddod i'r cyfarfod i roi diweddariadau rhanbarthol ar hynt eu gwaith ar weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru.

Cymeradwywyd cofnodion drafft y cyfarfod ym mis Tachwedd gan yr aelodau i'w cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 2. Diweddariad ar brosiect y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad

Nododd TS y byddai adroddiad y sefydliad **Regional Governance and Public Investment in Wales, Moving Forward Together** yn cael ei gyhoeddi ar 16 Ebrill.

Diolchodd i MVM a'r sefydliad, gan nodi  y bydd yr adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiad cyntaf y sefydliad a gyhoeddwyd yn 2020, a'r gwersi a ddysgwyd o gronfeydd yr UE, dulliau buddsoddi presennol a mentrau eraill yn bwydo i mewn i ddulliau datblygu rhanbarthol yng Nghymru yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Diolchodd MVM i'r aelodau am gymryd rhan yn y prosiect, gan grynhoi argymhellion allweddol adroddiad y sefydliad yn 2020:

- Sicrhau dull gweithredu strategol hirdymor ynghyd â strategaeth datblygu rhanbarthol yn seiliedig ar weledigaeth ar gyfer yr hirdymor
- Gwella trefniadau llywodraethu datblygu rhanbarthol
- Meithrin gallu cenedlaethol ac is-genedlaethol

Amlinellodd MVM fod yr adroddiad newydd yn ffrwyth nifer o weithgareddau, gan gynnwys: cyfweliadau â grwpiau ffocws, mapio strategaethau, gweithdai ac arolygon pennu gweledigaeth.

Dywedodd MVM fod y gwaith hwn wedi helpu i gadarnhau tir cyffredin amlwg ar gyfer gweledigaeth datblygu rhanbarthol, gyda sawl barn wahanol ynglŷn â ‘sut y gyflawni'r nod’.

Y pwynt allweddol cyntaf o adroddiad y sefydliad oedd bod angen un strategaeth datblygu rhanbarthol a thîm penodol i gydlynu gweithgarwch datblygu rhanbarthol ar ôl i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) gael ei diddymu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yr ail bwynt allweddol o'r adroddiad oedd bod angen Cyd-bwyllgorau Corfforedig llywodraeth leol cadarn sydd â gwerth ychwanegol a fynegwyd yn glir er mwyn helpu i fod yn sbardun i ddatblygu a chydlynu rhanbarthol. Pwysleisiodd MVM yr angen am rôl gefnogol i Lywodraeth Cymru gyda disgwyliadau clir, ond lle i Gyd-bwyllgorau Corfforedig deilwra camau gweithredu yn ôl amgylchiadau rhanbarthol penodol.

Nododd MVM hefyd bwysigrwydd cysoni terfynau amser gwaith cynllunio rhanbarthol a lleol er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy integredig.

Trydydd pwynt allweddol yr adroddiad oedd bod angen atgyfnerthu cydberthnasau llywodraethu aml-lefel ar sail egwydorion cyffredin. Argymhellodd MVM lwyfannau deialog newydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn hwyluso prosesau cyfathrebu o ansawdd gwell a meithrin gallu ychwanegol.

Gorffennodd MVM drwy ddweud bod y sefydliad yn llunio cynlluniau gweithredu terfynol ar y cyd â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phecyn cymorth, ac y byddai adroddiad synthesis y sefydliad yn cael ei gyhoeddi ar 16 Ebrill.

Yn dilyn cyflwyniad MVM, nododd TS, yng nghyd-destun y Genhadaeth Economaidd, fod ‘archwiliadau dwfn’ neu ‘adolygiadau byr eu parhad’ yn cael eu cynllunio, gan gynnwys un ar fuddsoddi rhanbarthol y byddai rhanddeiliaid yn cymryd rhan ynddo.

Mewn ymateb i'r diweddariad gan y sefydliad, gwnaeth aelodau y sylwadau canlynol:

- Mae ymgysylltu rhwng Gweinidogion a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn newid ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Bydd mwy o eglurder ar rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym maes datblygu economaidd yn y dyfodol – bydd adroddiad y sefydliad yn helpu i lywio hynny.
- Mae'n bwysig iawn bod yn glir ynghylch pa randdeiliaid a lefelau llywodraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn cyflawni elfennau gwahanol unrhyw strategaethau newydd.

- Mae angen cadarnhau rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o ran mynd i'r afael â lleihad yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn addysg ôl-16.
- Mae egluro rolau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gam ymlaen. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cyd-fynd â'i gilydd o ran rôl a chwmpas.
- Mae problemau sylweddol o ran adnoddau i'w cydnabod cyn y gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyflawni swyddogaethau ychwanegol.
- Mae'n hollbwysig ennyn ymddiriedaeth rynglywodraethol ar bob lefel, gan gynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol.

# 3. Diweddariad gan lywodraeth leol

Gofynnodd TS i Dylan Griffiths (DG), Paul Relf (PR), Carwyn Jones-Evans (CJE) a Peter Mortimer (PM) roi diweddariad i'r aelodau ar hynt y Gronfa Ffyniant Gyffredin ym mhob un o ranbarthau Cymru.

## Y Canolbarth

Dywedodd CJE fod 162 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo yn y Canolbarth (ar 31 Mawrth) a bod £37.4 miliwn wedi cael ei neilltuo (88% o gyfanswm dyraniad y Canolbarth).

Ymhlith yr heriau allweddol roedd natur gywasgedig cyfnod y rhaglen sydd wedi golygu bod angen cyflawni o fewn dwy flynedd yn hytrach na thair ar ôl yr oedi cyn i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r cynllun buddsoddi.

Ychwanegodd CJE ei bod yn annhebygol y byddai'r sefyllfa o ran unrhyw achosion o ddadneilltuo ariannol yn hysbys tan yr hydref a olygai na fyddai fawr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddim amser i ailddyrannu.

Er bod y sefyllfa o ran cyllid Lluosi yn gwella, mae awdurdodau lleol yn dal i lobïo dros ychydig o hyblygrwydd i symud rhan o'r cyllid hwn i flaenoriaeth Pobl a Sgiliau.

Nid oes unrhyw geisiadau agored am gyllid yn yr arfaeth oherwydd cyfyngiadau amser cyn cau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin erbyn mis Mawrth 2025.

## Y Gogledd

Dywedodd DG fod 167 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo, sy'n neilltuo 95% o gyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i'r rhanbarth.

Mae'r heriau o ran Lluosi yn parhau ac mae teimlad bod yr elfen hon o'r ddarpariaeth bron yn orlawn erbyn hyn.

Ychwanegodd DG fod awdurdodau lleol yn pwyso ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd ynglŷn â therfynau amser gwario'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r gallu i symud cyllid Lluosi i flaenoriaethau eraill.

## Y De-orllewin

Dywedodd PR fod ymreolaeth o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn brofiad cadarnhaol i lywodraeth leol a'i bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i osgoi dyblygu gweithgareddau.

Mae ymrwymiadau yn y de-orllewin yn mynd rhagddynt yn dda. Mae tua £15 miliwn wedi cael ei ddosbarthu i'r trydydd sector a £6 miliwn i'r sector preifat.

Ychwanegodd PR y byddai data ehangach ar y ffordd roedd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cael ei ddosbarthu ar gael cyn hir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Y De-ddwyrain

Dywedodd PM fod mwy na 400 o brosiectau gweithredol yn y de-ddwyrain ac ymgysylltu da rhwng sectorau o ran cyflawni prosiectau.

Ymhlith yr allbynnau hyd yma, mae cymorth wedi cael ei roi i tua 300 o sefydliadau cymunedol a 300 o fusnesau, 400 o egin fusnesau a 2,000 o bobl economaidd anweithgar.

Mae strategaeth Blwyddyn 3 yn seiliedig ar sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl yn cael ei neilltuo a'i wario er mwyn sicrhau nad yw'r rhanbarth yn colli unrhyw arian.

Ychwanegodd PM, yn debyg i'r rhanbarthau eraill, fod Lluosi wedi bod yn heriol a bod llywodraeth leol yn dal i ofyn am hyblygrwydd gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn.

## 4. Unrhyw fater arall

Diolchodd TS i'r aelodau am fod yn bresennol, gan nodi bod yr adborth parhaus gan bob sector yn bwysig er mwyn dysgu gwersi cyn unrhyw gam newydd o fuddsoddi rhanbarthol ar ôl 2025.

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall a dywedodd TS y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal cyn toriad yr haf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad A: rhestr o mynychwyr

## Cadeirydd

Tom Smithson, Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru

## Aelodau

Maria Varinia Michalun, Pennaeth Uned ac Alexis Durand, Dadansoddydd Polisi, y Ganolfan Entrepreneuriaeth, BBaChau, Rhanbarthau a Dinasoedd (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd)

Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru (Addysg Uwch)

Lowri Gwilym, Rheolwr Tîm - Ewrop ac Adfywio (CLILC)

Rhianne Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol ar Adael yr UE a Rheoli Tir (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Glenn Bowen, Cyfarwyddwr Menter, Cwmpas (Y Trydydd Sector - Menter Gymdeithasol)

Harriett Barnes, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllido (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru)

Matt Brown, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Partneriaeth y Trydydd Sector)

Eirlys Lloyd, Cadeirydd (Rhwydwaith Gwledig Cymru)

Ashley Rogers, Cyfarwyddwr – Gill and Shaw (Ffederasiwn Hunangyflogedig a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Busnesau Bach Cymru)

Grahame Guilford (Grahame Guilford and Company Ltd)

Leighton Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, CBI Cymru (CBI (Busnes))

Rob Hunter, Pennaeth Strategaeth (Banc Datblygu Cymru)

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Uchelgais Gogledd Cymru (Partneriaeth Gogledd Cymru)

Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru)

Kevin Morgan, Yr Athro Llywodraethu a Datblygu, Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio (Prifysgol Caerdydd)

Peter Mortimer, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Llywodraeth Leol)

Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Llywodraeth Leol)

Paul Relf, Cyngor Abertawe (Llywodraeth Leol)

Dylan Rhys Griffiths, Cyngor Gwynedd (Llywodraeth Leol)

## Mynychwyr o Lywodraeth Cymru

Peter Ryland, WEFO – Prif Swyddog Gweithredol

Duncan Hamer, Busnes a Rhanbarthau – Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Geraint Green, WEFO – Pennaeth Rheoli Rhaglenni (Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cydweithredu Tiriogaethol Ewrop a Cymru Ystwyth)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Alison Sandford, WEFO – Pennaeth Polisi a Gweithio Mewn Partneriaeth

Mike Richards, WEFO – Rheolwr Cyfathrebu

Claire McDonald, Busnes a Rhanbarthau – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Economaidd

Sam Huckle, Partneriaethau Cymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg – Pennaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau

Sarah Govier, Trysorlys Cymru – Pennaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Rhys Morris, Busnes a Rhanbarthau – Prif Swyddog Rhanbarthol (Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

David Rosser, Busnes a Rhanbarthau – Prif Swyddog Rhanbarthol (De)

Janet Owen Jones, Busnes a Rhanbarthau – Pennaeth Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru (Strategaeth)

Laurence Smith, Busnes a Rhanbarthau – Uwch-reolwr Cynllunio Rhanbarthol

Chris Stevens, Llywodraeth Leol – Pennaeth Perfformiad a Llywodraethu Llywodraeth Leol

Ann Watkin, Busnes a Rhanbarthau – Pennaeth Strategaeth, Alinio Gweithrediadau a Chynllunio

Steven McGregor, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg – Dirprwy Gyfarwyddwr, Gogledd Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-15-ebrill-2024-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.